

## OWEN, WILLIAM (1785 - 1864), hynafiaethydd

**Enw:** William Owen  
**Dyddiad geni:** 1785  
**Dyddiad marw:** 1864  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** hynafiaethydd  
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant  
**Awdur:** Emyr Gwynne Jones

Ganwyd 1785 ym Miwmares, a bu'n ddisgybl yn yr ysgol ramadeg yno. Gwasnaethodd fel môr-filwr yn y rhyfel yn erbyn Napoleon. O 1824 ymlaen cysylltir ei enw â thref Caernarfon, lle yr adwaenid ef fel William Owen ' Y Pab.' Yn ôl ei dystiolaeth ef ei hun, derbyniodd y llysenw hwn mewn canlyniad i ryw bamffled a gyhoeddodd yn 1829 yn amddiffyn y safiad a wnaeth ardalydd Môn yn Nh r Arglwyddi dros ryddfreniad y Pabyddion. Ac am yr un rheswm, meddai, aeth mor ffaidd yng ngolwg ei gydwladwyr fel na chwenychai neb roddi gwaith iddo. Ymddengys mai'n llifio coed mewn pwll llif y bu am gyfnod helaeth o'i oes. Ymddiddorai'n fawr mewn hynafiaethau; clywir amdano o bryd i'w gilydd yn archwilio hen gofrestrau yn Llundain, neu'n dehongli hen arysgrifau yma ac acw yng Nghymru. Ond fel hanesydd, hygoelus i'r eithaf ydoedd, fel y dengys hynny o'i waith sydd ar glawr, sef *Drych Crefyddol yn dangos Dechreuad y Grefydd Brotestanaidd, etc.*, 1824; *Hanes Cyflafan neu Ddinystr y Beirdd Cymreig, etc.* (traethawd buddugol yn eisteddfod Cymreigyddion Caernarfon, 1824); *Y Drych Bradwriaethol, sef Hanes Brad y Cyllyll Hirion*, 1825; *Hanes Dechreuad Cenedl y Cymry*, 1826; *Hanes Owain Glandwr, [ sic ]* 1833; a *History of Dolbadarn Castle, Llanberis* (d.d.). Treuliodd ei oes mewn dygn dlodi a bu farw 15 Chwefror 1864.

### Awdur

Emyr Gwynne Jones, (1911 - 1972)

### Ffynonellau

J. E. Lloyd, *Owen Glendower / Owen Glyn Dwr* (1931), 157-8, ac yn *Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn*, 1921, 43-4

*Cyfaill yr aelwyd cylchgrawn misol at wasanaeth oriau hamddenol y Cymry, yn cynnwys chwedleuaeth, cerddoriaeth, barddoniaeth, gwyddoniaeth, a llenyddiaeth bur, adeiladol, a dyddanus a'r Y Frythonnes at wasanaeth merched a gwragedd Cymru* (Llanelli 1879-1891), 1892, 93-5

*Gwaith y Parch. Walter Davies (Gwallter Mechain)* (Caerfyrddin 1866-1868), ii, 512-41

U.C.N.W. Plas Newydd correspondence

*Carnarvon and Denbigh herald, and North and South Wales independent*, 20 Chwefror 1864

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734688](https://www.wikidata.org/wiki/Q20734688)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

